

# Rhestr Wirio Sefydlu

Arfer dda ar  
gyfer ANG mewn  
ysgolion



**2018**  
**2019**

## Rhestr wirio arfer dda ar gyfer ANG

Os NA yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau isod, dylech, fel aelod newydd gymhwyso o'r Undeb Addysg Cenedlaethol, drafod y mater gyda'ch cynrychiolydd gweithle, yn y lle cyntaf. Gofynnwch i gydweithiwr os nad ydych yn sicr pwy yw eich cynrychiolydd. Os nad oes cynrychiolydd yn eich gweithle dylech chi gysylltu â'r Undeb Addysg Cenedlaethol ar 0345 811 8111.

- ◆ Ydych chi wedi llwyddo ym mhob un o'r profion sgiliau SAC? (Dim ond yn berthnasol os i chi hyfforddi yn Lloegr).
- ◆ Oes tiwtor sefydlu wedi'i benodi i'ch cefnogi (Lloegr) neu fentor ysgol (Cymru)?
- ◆ A'ch anogwyd chi i fod yn rhan o gynllunio'ch rhaglen sefydlu?
- ◆ A dderbynioc raglen ar gyfer eich holl gweithgareddau sefydlu, gan gynnwys arsylwadau, adolygiadau proffesiynol o ddatblygiad, gweithgareddau datblygiad proffesiynol penodol i chi a chyfarfodydd asesu ffurfiol?
- ◆ Ydych chi'n derbyn copïau o bob cofnod ysgrifenedig sy'n berthnasol i'ch asesu?
- ◆ A roddwyd i chi enw rhywun yn y corff perthnasol y gallwch godi eich pryderon â nhw am eich cyfnod sefydlu?
- ◆ Os yn berthnasol, a benodwyd mentor allanol i chi? (Dim ond os ydych chi'n addysgu yng Nghymru).
- ◆ Ydych chi'n hapus gyda chynnwys a/neu ch(g)yflwyniad eich rhaglen sefydlu?
- ◆ Ydych chi'n derbyn eich hawl i faich gwaith addysgu lai? Mae'r STPCD yn nodi na ddylech addysgu am fwy na 90 y cant o'r amser o athrawon eraill yn yr ysgol sydd ar y brif raddfa gyflog (heb bwyntiau cyfrifoldeb). A yw hyn yn ychwanegol i'ch 10 y cant o amser CPA? Ydych chi'n derbyn eich cyflog ar amser?

- ◆ Ydych chi'n teimlo bod eich swydd ddisgrifiad yn rhesymol?
- ◆ Ydych chi'n addysgu'r ystod oedran a/neu'r pynciau i chi hyfforddi i'w dysgu (Cymru) neu i chi gael eich cyflogi i'w addysgu (Lloegr)?
- ◆ Oes gennych yr adnoddau i gefnogi'r disgyblion yn eich dosbarth?
- ◆ Os ydych chi'n gweithio fel athro cyflenwi yn Lloegr, gyda chytundeb tymor neu fwy, ydy'ch pennaeth wedi cytuno o flaen llaw faint bydd y cyfnod hwnnw o gyflogaeth yn cyfrif tuag at eich cyfnod sefydlu?
- ◆ Os ydych chi'n gweithio fel athro cyflenwi yng Nghymru, ydych chi'n ymwybodol bod pob cyfnod cyflenwi yn cyfrif tuag at eich cyfnod sefydlu? A lenwoch chi'r *Ffurflen Hysbysu Sefydlu fel Athro Cyflenwi Byrdymor* o wefan Cyngor y Gweithlu Addysg o fewn deng niwrnod o ddechrau gwaith cyflenwi?
- ◆ Ydych chi wedi derbyn eich cytundeb cyflogaeth, amserlen, trefniadau cefnogi cyfnod sefydlu a phob polisi ysgol berthnasol?
- ◆ Ydych chi'n hyderus eich bod yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch chi yn ystod eich cyfnod sefydlu, gan gynnwys sut i ddefnyddio eich proffil dechrau gyrfa (Cymru)?
- ◆ Oes mynediad hawdd gennych chi i gopi o gylchlythyr llywodraeth Cymru neu arweiniad statudol yr Adran Addysg yn Lloegr ar sefydlu?

I weld ein canllawiau sefydlu llawn, ewch i [www.neu.org.uk/induction](http://www.neu.org.uk/induction)

**Aelodaeth AM  
DDIM i athrawon  
dan hyfforddiant  
a dim ond £1 i'r  
rhai newydd  
gymhwyso\***



**Ymunwch â'r  
Undeb Addysg  
Cenedlaethol: dros  
450,000 o athrawon  
a gweithwyr addysg  
proffesiynol sy'n  
codi llais dros  
addysg.**

**Ymunwch â ni heddiw**

**[www.neu.org.uk/join](http://www.neu.org.uk/join)**

**0345 811 8111**

\*Telerau ac amodau yn [www.neu.org.uk/terms](http://www.neu.org.uk/terms)